



I:

Sefydliadau addysg uwch yng Nghymru sy'n darparu cyrsiau addysg uwch dynodedig
Sefydliadau addysg bellach yng Nghymru sy'n darparu cyrsiau addysg uwch dynodedig
Darparwyr eraill sy'n darparu cyrsiau addysg uwch dynodedig
Y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr
UCAS
Y Brifysgol Agored yng Nghymru
Grŵp Rhanddeiliaid Cyllid Myfyrwyr Cymru
NUS Cymru
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Prifysgolion Cymru
Colegau Cymru
a phartïon eraill â buddiant

Rhagfyr 2018

Annwyl Gydweithiwr

NEWIDIADAU I'W CYNNWYS YN RHEOLIADAU CYMORTH I FYFYRWYR CYMRU AR GYFER BLWYDDYN ACADEMAIDD 2019/20

Mae Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019 ("Rheoliadau 2019") yn cael eu drafftio ar hyn o bryd ac, o'u pasio, byddant yn cefnogi myfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru sy'n gwneud cwrs addysg uwch dynodedig. Bydd Rheoliadau 2019 yn berthnasol i ddarparu cymorth i fyfirwyr israddedig newydd ar gyfer blwyddyn academaidd sy'n cychwyn ar neu ar ôl 1 Awst 2019, ac i fyfirwyr sy'n parhau i astudio cyrsiau a gychwynnodd ar neu ar ôl 1 Awst 2018. Bydd Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfirwyr) (Cymru) 2017 yn cael eu diwygio a byddant yn berthnasol i ddarparu cymorth i fyfirwyr sy'n parhau i astudio cyrsiau a gychwynnodd cyn 1 Awst 2018.

YMHOLIADAU

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am Rheoliadau 2019 neu os hoffech chi wneud sylw am yr Hysbysiad Gwybodaeth, ysgrifennwch at yr Is-adran Addysg Uwch yn y cyfeiriad isod neu'r cyfeiriad e-bost hwn: (HEConsultationMailbox@llyw.cymru).



Crynodeb o'r newidiadau i'r rheoliadau cymorth i fyfyrwyr ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20

Disgwylir i'r gyfres nesaf o reoliadau cymorth i fyfyrwyr ddwyn yr enw Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019.

Pecyn Ariannol

1. Swm y grant i fyfyrwyr anabl yn cynyddu

Bydd swm y grant i fyfyrwyr anabl sydd ar gael i bob myfyriwr cymwys sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru yn cynyddu 6.1 y cant. Mae Tabl 1 isod yn nodi'r lefelau cymorth presennol a'r lefelau cymorth uwch. Bydd myfyrwyr newydd a myfyrwyr sy'n parhau i astudio (h.y. pob cohort) yn gymwys ar gyfer y symiau uwch yn 2019/20.

Nid yw uchafswm y cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr anabl sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru wedi newid ers 2012. Cafodd yr uchafswm sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yn Lloegr ei gynyddu gan Lywodraeth y DU yn 2018/19. Bydd y cynnydd yn sicrhau nad yw myfyrwyr o Gymru o dan anfantais o gymharu â myfyrwyr o Loegr.

Mae Llywodraeth y DU wedi dweud ei bod yn bwriadu cynyddu lefel y grant i fyfyrwyr anabl sydd ar gael i fyfyrwyr ôl-radd i £20,000 yn 2019/20. Bydd darparu ar gyfer yr un cynnydd yn Rheoliadau 2019 yn sicrhau bod myfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru yn gallu derbyn yr un lefel o gymorth â'r hyn sydd ar gael i fyfyrwyr o Loegr.

Tabl 1

Achos	Swm presennol yn 2018/19	Swm uwch yn 2019/20
Gwariant gofynnol ar gynorthwydd personol anfeddygol	£21,181 (llawn amser)	£22,472 (llawn amser)
	£15,885 (rhan-amser)	£16,853 (rhan-amser)
Gwariant gofynnol ar eitemau cyfarpar arbenigol mawr	£5,332	£5,657
Rheoliad 63 Mathau eraill o wariant	£1,785 (llawn amser)	£1,894 (llawn amser)
	£1,338 (rhan-amser)	£1,420 (rhan-amser)
Swm y grant i fyfyrwyr ôl-radd anabl	£10,590	£20,000

2. Cynyddu faint o gymorth cynhaliaeth sydd ar gael i fyfyrwyr cohort 2018 yn unol â'r polisi sydd wedi'i sefydlu

Bydd swm y benthyciad cynhaliaeth sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ac a ddechreuodd eu cyrsiau ar neu ar ôl 1 Awst 2018 yn cynyddu. Cyflwynodd Adolygiad Diamond yr egwyddor y dylai cymorth cynhaliaeth fod yn seiliedig ar y Cyflog Byw Cenedlaethol, ac mae'r cynnydd yn adlewyrchu lefel ddisgwyliedig y Cyflog Byw Cenedlaethol ar gyfer 2019. Nid yw lefel y grant sylfaenol, y grant cynhaliaeth a'r trothwyon incwm cysylltiedig ar gyfer profion modd yn newid. Mae cynyddu lefel benthyciadau yn hytrach na grantiau yn sicrhau fforddiadwyedd parhaus wrth i'r diwygiadau gael eu cyflwyno ar gyfer y cohort newydd. Sefydlwyd yr ymateb hwn pan ymatebodd Llywodraeth Cymru i Adolygiad Diamond.

Mae'r tablau perthnasol yn Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 (fel y'u diwygiwyd) sydd angen eu diweddarw wedi'u nodi yn Nhabl 2 isod, sy'n dangos y cyfraddau presennol a'r symiau uwch arfaethedig.

Tabl 2

Cyfeirnod y Tabl	Swm y benthyciad yn 2018/19	Swm y benthyciad yn 2019/20
Tabl 7, Categori 1, Byw gartref	£6,650	£6,840
Tabl 7, Categori 1, Cyfradd astudio yn Llundain	£10,250	£10,530
Tabl 7, Categori 1, Cyfradd astudio yn rhywle arall	£8,000	£8,225
Tabl 7, Categori 2, Cyfradd astudio yn rhywle arall	£3,325	£3,420
Tabl 7, Categori 3, Cyfradd astudio yn Llundain	£5,125	£5,265
Tabl 7, Categori 3, Cyfradd astudio yn Llundain	£4,000	£4,110
Tabl 8, Byw gartref	£7,650	£7,840
Tabl 8, Cyfradd astudio yn Llundain	£11,250	£11,530
Tabl 8, Cyfradd astudio yn rhywle arall	£9,000	£9,225
Tabl 8A, Byw gartref	£3,325	£3,420
Tabl 8A, Cyfradd astudio yn Llundain	£5,125	£5,265
Tabl 8A, Cyfradd astudio yn rhywle arall	£4,000	£4,110

Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru (SFWIN05 /2018)

Cyfeirnod y Tabl	Swm y benthyciad yn 2018/19	Swm y benthyciad yn 2019/20
Tabl 9, Byw gartref	£80	£84
Tabl 9, Cyfradd astudio yn Llundain	£153	£162
Tabl 9, Cyfradd astudio yn rhywle arall	£120	£127
Tabl 10	£5,650	£5,815
Tabl 10 A	£6,650	£6,815

3. Cynyddu faint o gymorth cynhaliaeth sydd ar gael i fyfyrwyr cohort 2012 yn unol â'r polisi sydd wedi'i sefydlu

Mae swm y cymorth cynhaliaeth sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ac a ddechreuodd eu cyrsiau ar neu ar ôl 1 Medi 2012 ond cyn 1 Awst 2018 yn cynyddu bob blwyddyn er mwyn adlewyrchu costau byw uwch. Ar gyfer 2019/20, mae cymorth cynhaliaeth yn cynyddu yn yr un modd â'r hyn a wnaed ar gyfer cohortau blaenorol, trwy godi'r benthyciad cynhaliaeth (i sicrhau fforddiadwyedd) i lefel sy'n cyfateb i'r cynnydd o 2.8% a ragwelir yn y mynegai prisiau manwerthu ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20 (amcanestyniad y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol). Nid yw swm y grant cynhaliaeth a'r trothwyon cysylltiedig ar gyfer profion modd yn newid.

Mae'r rheoliadau perthnasol yn Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 (fel y'u diwygiwyd) sydd angen eu diweddarau wedi'u nodi yn Nhabl 3 isod, sy'n dangos y cyfraddau presennol a'r symiau uwch arfaethedig.

Tabl 3

Cyfeirnod y Rheoliad	Swm y benthyciad yn 2018/19	Swm y benthyciad yn 2019/20
Rheoliad 43, paragraff 2(i)	£5,529	£5,684
Rheoliad 43, paragraff 2(ii)	£10,007	£10,288
Rheoliad 43, paragraff 2(iii)	£8,517	£8,756
Rheoliad 43, paragraff 2(iv)	£8,517	£8,756
Rheoliad 43, paragraff 2(v)	£7,143	£7,344
Rheoliad 43, paragraff 3(i)	£5,006	£5,147
Rheoliad 43, paragraff 3(ii)	£9,112	£9,368
Rheoliad 43, paragraff 3(iii)	£7,408	£7,616

Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru (SFWIN05 /2018)

Cyfeirnod y Rheoliad	Swm y benthyciad yn 2018/19	Swm y benthyciad yn 2019/20
Rheoliad 43, paragraff 3(iv)	£7,408	£7,616
Rheoliad 43, paragraff 3(v)	£6,617	£6,803
Rheoliad 45, paragraff (1) (a) (i)	£2,625	£2,699
Rheoliad 45, paragraff (1) (a) (ii)	£4,920	£5,058
Rheoliad 45, paragraff (1) (a) (iii)	£3,500	£3,598
Rheoliad 45, paragraff (1) (a) (iv)	£3,500	£3,598
Rheoliad 45, paragraff (1) (a) (v)	£3,500	£3,598
Rheoliad 45, paragraff (1) (b) (i)	£2,625	£2,699
Rheoliad 45, paragraff (1) (b) (ii)	£4,920	£5,058
Rheoliad 45, paragraff (1) (b) (iii)	£4,186	£4,304
Rheoliad 45, paragraff (1) (b) (iv)	£4,186	£4,304
Rheoliad 45, paragraff (1) (b) (v)	£3,500	£3,598
Rheoliad 45, paragraff (1) (c) (i)	£4,147	£4,263
Rheoliad 45, paragraff (1) (c) (ii)	£7,505	£7,716
Rheoliad 45, paragraff (1) (c) (iii)	£6,388	£6,567
Rheoliad 45, paragraff (1) (c) (iv)	£6,388	£6,567
Rheoliad 45, paragraff (1) (c) (v)	£5,357	£5,508
Rheoliad 45, paragraff (2) (a) (i)	£1,996	£2,052
Rheoliad 45, paragraff (2) (a) (ii)	£3,763	£3,869
Rheoliad 45, paragraff (2) (a) (iii)	£2,727	£2,804
Rheoliad 45, paragraff (2) (a) (iv)	£2,727	£2,804
Rheoliad 45, paragraff (2) (a) (v)	£2,727	£2,804
Rheoliad 45, paragraff (2) (b) (i)	£1,996	£2,052
Rheoliad 45, paragraff (2) (b) (ii)	£3,763	£3,869
Rheoliad 45, paragraff (2) (b) (iii)	£3,060	£3,146
Rheoliad 45, paragraff (2) (b) (iv)	£3,060	£3,146
Rheoliad 45, paragraff (2) (b) (v)	£2,727	£2,804

Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru (SFWIN05 /2018)

Cyfeirnod y Rheoliad	Swm y benthyciad yn 2018/19	Swm y benthyciad yn 2019/20
Rheoliad 45, paragraff (2) (c) (i)	£3,755	£3,860
Rheoliad 45, paragraff (2) (c) (ii)	£6,834	£7,026
Rheoliad 45, paragraff (2) (c) (iii)	£5,556	£5,712
Rheoliad 45, paragraff (2) (c) (iv)	£5,556	£5,712
Rheoliad 45, paragraff (2) (c) (v)	£4,963	£5,102
Rheoliad 50, paragraff 1 (a)	£80	£84
Rheoliad 50, paragraff 1 (b)	£153	£162
Rheoliad 50, paragraff 1 (c)	£166	£177
Rheoliad 50, paragraff 1 (d)	£166	£177
Rheoliad 50, paragraff 1 (e)	£120	£127

4. Addasu'r cydbwysedd rhwng y grant ffioedd dysgu a'r benthyciad ffioedd dysgu ar gyfer myfyrwyr cohort 2012 yn unol â'r polisi sydd wedi'i sefydlu.

Yn unol â'r polisi hirdymor a gyflwynwyd yn ystod blwyddyn academiaidd 2012/13, mae swm y grant ffioedd dysgu'n cael ei leihau a swm y benthyciad ffioedd dysgu yn cael ei gynyddu ar gyfer myfyrwyr cohort 2012 yn unol â'r gyfradd chwyddiant a ragwelir (amcanestyniad mynegai prisiau manwerthu'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, fel uchod).

Mae darpariaethau perthnasol yn Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 fel y'u diwygiwyd sydd angen eu diwygio wedi'u nodi yn Nhabl 4 isod, sy'n dangos y cyfraddau presennol a'r symiau diwygiedig arfaethedig.

Tabl 4

Cyfeirnod y Rheoliad	Swm yn 2018/19	Swm yn 2019/20
<i>Grant ffioedd</i>		
Rheoliad 16, paragraff 3, is-baragraff (a)	£4,800	£4,665
Rheoliad 16, paragraff 3, is-baragraff (b)	£4,200	£4,335
Rheoliad 16, paragraff 4, is-baragraff (a)	£2,480	£2,410
Rheoliad 16, paragraff 4, is-baragraff (b)	£2,020	£2,090

Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru (SFWIN05 /2018)

Cyfeirnod y Rheoliad	Swm yn 2018/19	Swm yn 2019/20
<i>Benthyciad ffioedd</i>		
Rheoliad 19, paragraff 3, is-baragraff (a)	£4,200	£4,335
Rheoliad 19, paragraff 4, is-baragraff (a)	£2,020	£2,090

5. Graddau carlam

Gosododd Llywodraeth y DU reoliadau ar 29 Tachwedd 2018 i gyflwyno terfyn ffioedd uwch – £11,100 – ar gyfer cyrsiau gradd carlam, sef graddau sy'n para dwy flynedd yn hytrach na thair blynedd. Bydd y newid hwn yn berthnasol i fyfyrwyr newydd sy'n cychwyn cyrsiau o 2019/20 ymlaen. Hefyd, mae Llywodraeth y DU yn cynnig cynyddu uchafswm y cymorth ar gyfer ffioedd sydd ar gael i fyfyrwyr o Loegr i £11,100 er mwyn cyfateb i'r terfyn ffioedd.

Bu ansicrwydd mawr ynglŷn ag a fyddai modd newid polisi Llywodraeth y DU oherwydd amserlen brysur y Senedd. Nododd Llywodraeth y DU ei bwriad i fwrw ymlaen â deddfwriaeth ym mis Tachwedd 2018. O ganlyniad, ni fydd modd gwneud rheoliadau erbyn y cylch cymorth i fyfyrwyr ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20.

Fel rhan o broses ar wahân, cyflwynodd yr ymgynghoriad 'Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus' (WG33639), a ddaeth i ben ar 17 Gorffennaf 2018, y sefyllfa bresennol yn ymwneud â sefydliadau yng Nghymru sy'n cyflwyno graddau carlam, gan ofyn am safbwyntiau rhanddeiliaid ar yr angen posibl am ddiwygio deddfwriaethol. Amlygodd dadansoddiad o'r ymatebion gytundeb cyffredinol yn ymwneud ag argaeledd graddau carlam yng Nghymru yn y dyfodol. Fodd bynnag, roedd llawer o randdeiliaid yn teimlo bod angen cynnal ymgynghoriad ar wahân i ystyried yr holl faterion, ac mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r safbwynt hwn.

Ar sail yr holl ffactorau hyn, nid yw'n bosibl nac yn ddymunol datblygu ac ymgynghori ar bolisi newydd ar gyfer darparu cymorth ar gyfer graddau carlam erbyn dechrau cylch ymgeisio Cyllid Myfyrwyr Cymru ym blwyddyn academaidd 2019/20. Ni fydd unrhyw gymorth ychwanegol ar gael i fyfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ac sy'n cychwyn cwrs gradd carlam yn Lloegr yn 2019/20.

Bwriedir cynnal ymgynghoriad cyn blwyddyn academaidd 2020/21.